

# CYNGOR GWYNEDD

## 152. POLISI ADDYSG GARTREF

### Pwrpas y polisi hwn yw:

1. Tynnu sylw i gyfrifoldebau'r Awdurdod Addysg Lleol dros deuluoedd sy'n dewis adroddiad gartref.
2. Amlygu'r gweithdrefnau ar gyfer monitro'r teuluoedd.

### GWYBODAETH CEFNDIROL

#### Dyletswyddau Rhieni ac AALL

1. Mae addysg i blant yn orfodol, nid felly presenoldeb yn yr ysgol. Mae'n ddyletswydd ar rieni sicrhau bod eu plant yn cael eu haddysgu'n iawn yn unol â'r hyn sydd bellach yn Adran 7 o'r Ddeddf Addysg (Deddf 1996) sy'n datgan:

'Mae'n ddyletswydd ar riant pob plentyn o oedran ysgol gorfodol sicrhau ei fod yn derbyn addysg amser llawn, effeithlon, sy'n addas ar gyfer:

- a. ei oedran, gallu, a thueddfryd; ac
  - b. unrhyw anghenion addysgol arbennig a all fod ganddo naill ai trwy fynychu'r ysgol yn rheolaidd neu fel arall
2. Mae Deddf 1996 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r AALL sicrhau bod plant o oedran ysgol gorfodol yn derbyn 'addysg briodol'. Ymhellach mae'r Deddf yn disgrifio sut y dylai'r AALL gyflawni eu dyletswyddau'n ymarferol a monitro'r ddarpariaeth addysgol.
  3. **Cyfrifoldebau Rhieni**

Mae hawl gan riant addysgu ei blentyn/phlentyn gartref, fodd bynnag, rhaid i'r addysg a ddarperir fod yn "addysg briodol – mae Deddf 1996 hefyd yn datgan:

"Wrth gyflawni eu holl bwerau a'n dyletswyddau priodol yn unol â'r Deddfau Addysg ----- dylai awdurdodau addysg lleol ----- gymryd i ystyriaeth yr egwyddor gyffredinol y dylid addysgu disgyblion yn unol â dymuniadau eu rhieni, cyhyd a bod hynny'n gydnaws â'r ddarpariaeth o gyfarwyddyd a hyfforddiant effeithlon, ac osgoi gwariant cyhoeddus afresymol".

Mae hyn yn cefnogi hawl amodol rhieni i addysgu eu plant gartref.

4. **Dulliau Gweithredu**

Nid yw'n reidrwydd cyfreithiol ar rieni i hysbysu'r AALL o'u bwriad i addysgu gartref plentyn nad ydyw wedi ei gofrestru mewn ysgol y wladwriaeth. Er enghraifft, os ydyw'r plentyn yn iau na'r oedran statudol ar gyfer mynychu ysgol, yn mynychu ysgol breifat neu'n symud i ysgol arall.

Os yw rhiant yn penderfynu tynnu ei blentyn/plentyn allan o ysgol, ysgol gymunedol, dan reolaeth wirfoddol, dan gymorth gwirfoddol neu waddoledig, mae'n gyfrifoldeb ar yr ysgol i hysbysu'r AALL o'r penderfyniad hwnnw. Mae Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) 1995, rheol 9 (1) (c), yn darparu ar gyfer disgyblion gael eu tynnu oddi ar y gofrestr yn syth wedi derbyn llythyr gan y rhiant. Mae dyletswydd ar Bennaeth ysgol i hysbysu'r AALL o fewn 10 diwrnod o hysbysu (rheol 12 (3))

## **5. Anghenion Addysg Arbennig**

Gellir addysgu plentyn y bo ganddo anghenion addysgol arbennig gartref cyhyd â bod y rhieni yn cydymffurfio â'r un dyletswydd statudol:

“Mae'n ddyletswydd ar riant plentyn o oedran ysgol gorfodol i sicrhau ei fod yn derbyn addysg lawn amser effeithlon sy'n addas ar gyfer ei oedran, gallu a thueddfryd, ac unrhyw anghenion addysgol arbennig a all fod ganddo, naill a'i trwy fynychu'r ysgol yn rheolaidd neu fel arall.”

6. Pan fo datganiad o anghenion addysg arbennig wedi ei baratoi ar blentyn, sy'n enwi Ysgol Arbennig Ddynodedig, mae'n ofynnol i rieni sicrhau sêl bendith yr AALL cyn symud eu plentyn o'r ysgol yn unol â Rheol Addysg 9 (2) (Cofrestru Disgybl) 1995.
7. Os yw'r AALL yn cytuno bod addysg gartref yn briodol ar gyfer y plentyn, yna byddai'r datganiad yn cael ei ddiwygio i adlewyrchu hynny.
8. Mae gan yr AALL ddyletswyddau cyfreithiol i sicrhau bod rhieni yn cyflawni eu dyletswydd i ddarparu addysg briodol. Mae Awdurdod Addysg Gwynedd wedi dynodi'r Gwasanaeth Lles Addysg i fod yn gyfrifol am fonitro teuluoedd drwy gydgordio ymweliadau, diweddarau basau data a chadw'r gwaith papur priodol yn gyfredol.

Cydgordir y ddarpariaeth mewn ymgynghoriad â'r Gwasanaeth Ymgynghorol (Cwmni Cynnal) a'r Gwasanaeth Seicolegol (CBAAA).

## **9. Diben yr ymweliadau yw sicrhau bod:**

- a. addysg plant gartref yn cael ei fonitro'n rheolaidd a mesur cynnydd
  - b. ansawdd yr addysg a ddarperir yn cydymffurfio ag Adran 7 o Ddeddf 1996
  - c. cyfeiriad o unrhyw bryderon ynghylch addysg neu les y plant yn cael ei anfon i'r asiantaeth berthnasol
  - ch. yr AALL yn cyflawni ei ddyletswyddau statudol ynghylch monitro teuluoedd sy'n addysgu gartref.
10. Cynhyrchwyd taflen ar gyfer rhieni/gofalwyr, sy'n egluro hawliau a chyfrifoldebau addysg gartref. Dosberthir y taflenni hyn drwy'r Gwasanaeth Lles Addysg.

# CYNGOR GWYNEDD

## DULLIAU GWEITHREDU AR GYFER RHIENI SY’N DEWIS ADDYSGU EU PLANT GARTREF

### RHAGYMDRODD

Mae’r ddogfen hon yn amlinellu’r dulliau gweithredu a’r arweiniad er mwyn galluogi Awdurdod Addysg Lleol Gwynedd i gyflawni ei swyddogaethau statudol ynglŷn â phlant sy’n cael eu haddysgu gartref, o dan Adran 7 o Ddeddf addysg 1996 (yn flaenorol Adran 36 o Ddeddf Addysg 1944) sy’n datgan.

“Dylai rhiant pob plentyn o oedran ysgol gorfodol beri iddo dderbyn addysg amser llawn effeithlon sy’n addas ar gyfer:

- a. ei oedran, gallu a’i dueddfryd a
- b. unrhyw anghenion addysgol arbennig a all fod ganddo, naill ai drwy bresenoldeb rheolaidd yn yr ysgol neu fel arall”.

### EGWYDDORION

- Mae’r AALL yn credu yng ngwerth addysg wedi ei selio ar yr ysgol gan y rhydd gwricwlwm eang a chytbwys, sy’n hyrwyddo datblygiad cymdeithasol, ymwybyddiaeth foesol, ysbrydol a chyfleoedd cyfartal.
- Mae’r AALL yn parchu hawl rhieni a gofalwyr i ddewis addysgu eu plant gartref.
- Dymuna’r AALL hyrwyddo delio gweithredol gyda’r rhieni a’r gofalwyr drwy’r amser.
- Mae’r AALL yn sylweddoli y gall addysgu plentyn gartref fod yn ddull sy’n gosod llawer mwy o her i ddarparu addysg llawn amser effeithlon ac addas na phle bai’r plentyn yn mynychu ysgol.

### DULLIAU GWEITHREDU

Bydd yr adrannau isod yn gyfredol ar y cyd am fonitro a chefnogi plant a addysgir gartref yng Ngwynedd:

- Y Gwasanaeth Lles Addysg
- Y Gwasanaeth Ymgynghorol – Cwmni Cynnal
- Y Gwasanaeth Seicolegol – CBAAA.

Dywed Adran 9 o Ddeddf Addysg (1996)

“Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg ac awdurdodau addysg lleol yn rhoi ystyriaeth i’r egwyddor gyffredinol y bydd disgyblion yn cael eu haddysgu yn unol â dymuniadau eu rhieni”.

Yr AALL sy'n gyfrifol am fonitro a chefnogi plant a addysgir gartref o dan Adran 7 o'r Ddeddf, ac mae'n ddyletswydd arnynt sicrhau bod plant o oedran ysgol yn derbyn addysg "addas".

Nid yw "addas" wedi ei ddiffinio yn gyfreithiol, felly ni ellir pennu dehongliad safonol. Fodd bynnag mae'n ofynnol dan y ddeddf i AALL am weithredu os yw'n ymddangos nad yw plentyn yn derbyn addysg addas. Bydd yr adran addysg yn cydgysylltu ymateb i deuluoedd sy'n addysgu eu plant gartref ac yn sicrhau y cyflawnir dyletswyddau AALL.

## **TREFN GWEITHREDU**

- 1.** Unwaith mae rhiant/gofalwr wedi datgan bwriad i addysgu eu plentyn (plant) gartref (naill ai trwy hysbysu'r Gwasanaeth Lles Addysg neu Ysgol), dylid hysbysu'r Adran Addysg.
  - 1.1** Os daw'r ysgol neu'r CBAAA yn ymwybodol y gall rhieni/gofalwr fod yn ystyried addysgu eu plentyn (plant) gartref, yna byddai'n briodol cyfeirio at y Gwasanaeth Lles Addysg o fewn 10 diwrnod.
  - 1.2** Os oes gan yr ysgol unrhyw bryderon ynghylch y plentyn (plant) yn cael eu haddysgu gartref, yna dylent hysbysu'r Swyddog Addysg.
- 2.** Wedi i'r rhieni/gofalwyr benderfynu a hysbysu'r ysgol, anfonir llythyr atynt er mwyn trefnu ymweliad cychwynnol â'r cartref.
- 3.** Bydd y Gwasanaeth Lles Addysg mewn ymgynghoriad â Chwmni Cynnal yn trefnu ymweliad cychwynnol â'r cartref a chynnal asesiad rhagarweiniol o'r ddarpariaeth.
  - 3.1** Bydd y Gwasanaeth Lles Addysg yn hysbysu Adran y Gwasanaethau Cymdeithasol o'i bwriad i ymweld lle bo'n briodol. Os oes unrhyw faterion ynglŷn â diogelwch personol, caiff hyn ei gyfleu a'i gofnodi cyn yr ymweliad.
  - 3.2** Os nad yw'r rhieni'n ymateb, yn gwrthod rhai mynediad neu eu bod yn ymddangos nad ydynt yn cydweithredu ar ddau neu ragor o achosion yna cyfeirir yr achos at sylw'r Swyddog Addysg.
- 4.** Mewn achosion ble mae'r Gwasanaeth Lles Addysg yn dilyn derbyn adroddiad ymgynghorydd yn pennu nad yw'r ddarpariaeth yn addas ar gyfer oedran, gallu a thueddfryd, byddant mewn ymgynghoriad â'r Gwasanaeth Ymgynghorol (Cwmni Cynnal) a'r Gwasanaeth Seicolegol (CBAAArb), yn sicrhau bod y plentyn yn dychwelyd i leoliad addysgol priodol.
  - 4.1** Bydd unrhyw argymhelliad i ddychwelyd at ddarpariaeth gan yr AALL yn cael ei ragflaenu gan gyswllt â:
    - Rhieni
    - Gwasanaeth Lles Addysg
    - Swyddog Addysg
    - Ysgol
    - Asiantaethau eraill fel bo'n briodol.

**4.2 Os yw rhieni'n gwrthod cydweithredu i ddychwelyd i leoliad addysgol, bydd yr AALL yn ystyried cyfeirio rhieni trwy gyhoeddi gorchymyn Mynychu ysgol.**

5. Os oes gan, ar unrhyw adeg yn ystod y monitro, y Gwasanaeth Lles Addysg dystiolaeth neu bryderon mawr ynghylch lles a diogelwch y plentyn (plant) yna dylid trafod y rhain gyda'r Swyddog a enwyd gan yr AALL ar amddiffyn plant a chymryd camau priodol.
6. Yn achos plentyn ag anghenion addysgol arbennig, bydd y Gwasanaeth Lles Addysg yn cysylltu â'r Gwasanaeth Seicolegol (CBAAA) a Gwasanaeth Ymgynghorol (Cwmni Cynnal).
  - 6.1 Ble paratowyd Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig ar blentyn, bydd y Gwasanaeth Lles yn cysylltu â'r gwasanaeth cynhaliol priodol er mwyn sicrhau bod eu hanghenion addysgol yn cael eu bodloni.
  - 6.2 Os oes gan y plentyn Ddatganiad o'i Anghenion Addysgol Arbennig ac yn mynychu ysgol arbennig a enwir yn y Datganiad, mae'n ofynnol i ysgolion gael caniatâd yr AALL cyn y gallant ddileu enw'r plentyn hwnnw oddi ar gofrestr yr ysgol.

#### **RHEOLAU ADDYSG (COFRESTRU DISGYBLION) 1995 REGN. 9/2**

7. Bydd y Gwasanaeth Lles Addysg yn cadw'r holl nodiadau ac adroddiadau perthnasol ynghylch teuluoedd sy'n addysgu gartref.
8. Dylai Swyddogion sy'n ymweld osgoi rhoi eu hunain mewn sefyllfaoedd a allai fod yn anodd. Dylid rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch personol wrth drefnu ymweliad â chartref. Dylid cynnal cyfweiliadau â phlant gyda oedolyn arall yn bresennol bob amser. Os oes pryderon ynghylch diogelwch personol, gellir cynnig lleoliadau eraill ar gyfer cynnal cyfarfodydd a/neu ddau Swyddog yn ymweld. Dylid trafod y pryderon hyn bob amser gyda rheolwr y Gwasanaeth Lles Addysg a'u nodi.
9. Wrth ymweld â'r cartref, dylid dilyn gweithdrefnau er mwyn sicrhau bod y Swyddog sy'n ymweld wedi hysbysu eu rheolwr llinell/ysgrifenyddes ynghylch manylion y lleoliad ac am hyd yr ymchwiliad yn eu tyb hwy.
10. Er mwyn i'r gweithdrefnau weithio'n llwyddiannus, bydd angen i bawb sy'n cydweithio yn y broses ddeall eu swyddogaethau unigol, a sicrhau y cynhelir cysylltiadau.

## **RHESYMAU PAM FOD RHIENI YN DEWIS ADDYSG GARTREF**

Ceir sawl rheswm pam fod rhieni'n dewis eithrio o system Addysg y Wladwriaeth ac addysg eu plant gartref.

Ble bynnag y bo modd bydd y Gwasanaeth Lles Addysg yn monitro'r wybodaeth honno a bydd Swyddogion yn annog rhieni i drafod pam eu bod yn penderfynu addysgu gartref. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae rhieni'n fodlon rhoi rhesymau, fodd bynnag, mae rhai'n dewis peidio â datgelu'r wybodaeth honno. Mae'r categorïau a amlinellir isod yn rhoi'r rhesymau a restrir gan rieni. Mae categori "ni wyddys" yn cwmpasu'r rhieni hynny sy'n dewis peidio â datgelu eu rhesymau.

Cedwir manylion ynghylch nifer y disgyblion sy'n dod o dan bob categori ar fas data'r Awdurdod.

**a. Mynediadau**

Yn yr achosion hynny ble nad yw'r rhieni yn cael eu dewis cyntaf o'r ysgol i drosglwyddo iddi. Ar adegau, byddant yn ystyried addysgu gartref nes daw lle ar gael.

**b. Bwlio**

Gall y bydd rhieni sy'n driad fod eu plant yn cael eu bwlio yn symud eu plentyn o'r ysgol, yn aml er mwyn ailadeiladu hunan barch a hunan hyder.

**c. Dyslecsia/AAArb/Disgyblion mwy abl, talentog a dawnus**

Teimla rhai rhieni bod anghenion eu plant yn cael eu bodloni'n well trwy eu haddysgu gartref.

**ch. Absenoldeb**

Daw disgyblion sy'n cael eu dadrithio erbyn Blwyddyn 10 neu 11 o dan y categori hwn, ac yn aml, penderfynir addysgu gartref ar ôl llawer o ymgynghori a sicrhau cynhaliath gan y Gwasanaeth Lles Addysg.

**d. Teuluoedd Trafaelwyr**

Oherwydd natur fyrhoedlog ffordd o fyw teuluoedd trafaelwyr, efallai yr amherir ar addysg eu plant. Bydd rhieni weithiau'n dewis addysgu eu plant gartref er mwyn lleihau cymaint â bo modd ar yr amharu y gall eu trafaelio ei achosi.

**dd. Meddygol/ Straen**

Efallai y bydd rhieni plant sydd wedi treulio cyfnodau sylweddol yn absennol o'r ysgol oherwydd salwch neu ffobia ynghylch ysgol, er gwaethaf cynhaliath gan y Gwasanaeth Lles Addysg a'r Gwasanaeth Seicolegol yn dewis addysg gartref yn y diwedd.

**e. Amgylchedd Ysgol/Polisi**

Mae rhieni weithiau'n anghytuno â pholisi neilltuol sydd gan yr ysgol a'i threfn reoli. Trosglwyddir gwybodaeth ynghylch ysgolion unigol yn y categori hwn, bob amser, at sylw'r Adain Ansawdd.

**f. Crefydd**

Mai rhai teuluoedd yn arddel credoau crefyddol y teimlant na fyddent yn cael eu cefnogi na'u hamddiffyn o fewn system yr ysgolion ac felly'n dewis addysgu eu plant

gartref, er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn yr hyn a ystyriant yn addysg / fagwraeth foesol a chrefyddol briodol.

### **Nifer y plant sy'n dychwelyd i system Addysg y Wladwriaeth**

Mae tri prif reswm pam fod plant yn dychwelyd i ysgolion prif lif:

- a. dewis rhieni
- b. nid yw AALL mwyach yn cymeradwyo'r addysg a ddarperir ac felly'n argymhell dychwelyd i'r ysgol.
- c. rhieni'n symud o'r Sir.

Pryd bynnag y mae plentyn yn dychwelyd i'r ysgol ar argymhelliad yr AALL, bydd Swyddog o'r Adran Addysg yn cysylltu â'r Gwasanaeth Lles Addysg.